Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Pwll Coch**

**Ysgol Gymraeg Pwll Coch**
**Lawrenny Avenue**
**Caerdydd**
**CF11 8BR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Pwll Coch

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Pwll Coch |
| Lleoedd cofrestredig | 34 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru oedd hwn |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn cael profiadau gwerth chweil a da yn rheolaidd yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau am y gweithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt a chânt symud rhwng cyfleoedd a gaiff eu cynnig iddynt yn y lleoliad. Mae gan y plant gydberthnasau cynnes â'r staff ac maent yn rhyngweithio â nhw  mewn ffordd gadarnhaol bob amser. Mae sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth y plant yn cael eu defnyddio'n dda ac maent yn datblygu yn unol â'u hoedran.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn drylwyr ac yn llwyddiannus. Mae'r holl ryngweithio rhwng y staff a'r plant yn gynnes ac yn gadarnhaol ac mae'r staff yn cefnogi anghenion yr holl blant yn fedrus. Mae'r staff yn cynllunio ac yn cynnig amrywiaeth fuddiol a phwrpasol o weithgareddau gwerth chweil. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau sy'n cael eu harwain yn dda a chyson gan ddiddordebau ac awgrymiadau'r plant.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn drefnus. Mae'r gweithdrefnau hylendid a rheoli heintiau yn dda yn rheolaidd drwy gydol y lleoliad. Ar y cyfan, mae'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn lân, yn ddiogel ac yn addas ar gyfer y plant. Mae pob asesiad risg perthnasol ar waith ac yn effeithiol wrth sicrhau y caiff pob risg posibl dan do ac yn yr awyr agored ei leihau cymaint â phosibl. Mae amrywiaeth fuddiol o deganau ac adnoddau o ansawdd da yn y lleoliad ar gyfer gweithgareddau dan do a gweithgareddau awyr agored.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn ddigonol ar hyn o bryd. Mae'r staff yn agos ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad, a'r cyfleoedd a'r gofal y mae eu plant yn eu cael.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn gadarnhaol ac yn ymdopi'n dda wrth wahanu o'u rhieni. Maent yn gyfforddus iawn yn eu hamgylchedd ac yng nghwmni'r holl staff ac mae sawl un o'r plant yn rhedeg yn gyffrous i mewn i'r lleoliad. Maent wedi meithrin cydberthnasau cryf â'r staff a gyda'i gilydd, ac mae hyn yn cael effaith glir ac effeithiol ar eu llesiant. Mae gan bob plentyn weithiwr allweddol penodedig, ond cânt eu cyfarch gan bob aelod o'r staff. Mae'r gofal a gânt yn unol â'u hanghenion unigol pan fyddant yn cyrraedd. Er enghraifft, mae'r plant yn rhedeg i olchi ei dwylo i ddechrau'r gweithgareddau. Mae angen cysur a sicrwydd ar blant eraill gan y staff cyn setlo i'r gweithgareddau yn brydlon. Mae'r plant yn deall bod y staff yn ymateb yn llwyddiannus i'w hanghenion a'u gofynion. Er enghraifft, aeth plentyn at yr oedolyn agosaf pan oedd angen unrhyw gymorth arno neu i drafod ei hoff anifeiliaid yn y jyngl.

Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau gweith chweil â'i gilydd ac yn cydweithio â'i gilydd. Er enghraifft, gwnaethant ddechrau defnyddio blociau adeiladu i greu adeilad, ond cafodd hyn ei newid i welyau ac esgus cysgu arnynt. Maent yn aros eu tro yn amyneddgar ym mhob gweithgaredd. Er enghraifft, mae'r plant yn rhannu adnoddau yn yr hambwrdd twff ac yn cymryd eu tro â'r teganau sydd ar gael. Roeddent hefyd yn gweithio gyda'i gilydd wrth dacluso ar ddiwedd y sesiwn chwarae rhydd, yn barod ar gyfer amser byrbryd.

Mae'r plant yn cyfathrebu'n llwyddiannus ac yn hyderus â'r staff a gyda'i gilydd, ac yn dangos diddordeb cadarnhaol yn y gweithgareddau. Wrth gyrraedd, mae mwyafrif o'r plant yn rhedeg i'r lleoliad ac yn cymryd rhan yn gadarnhaol yn y profiadau sydd ar gael iddynt ar unwaith. Mae bron pob un o'r plant yn dangos chwilfrydedd ac yn archwilio amrywiaeth o gyfleoedd chwarae gwerthfawr. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rhydd, yn chwarae rôl gyda'r hambwrdd twff anifeiliaid a gwisgo i fyny.  Mae'r plant yn ymwybodol o hwyliau ac o deimladau eraill yn y lleoliad. Mae'r staff yn sicrhau bod teimladau'r plant yn cael eu hystyried, a chânt eu hannog i benderfynu pa weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt yn seiliedig ar eu hwyliau. Chwerthin a mwynhau yw'r norm yn y lleoliad. Roedd y plant yn gyffrous wrth gael eu galw i gymryd rhan mewn gweithgareddau Rhifedd a Llythrennedd.  Yn ystod amser tacluso, gwelsom y plant yn glanhau'r cyfarpar heb fawr anogaeth.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibynnol ac yn ymwybodol o'u harferion dyddiol megis mynd i'r toiled a golchi dwylo. Gallant benderfynu ar y gweithgareddau pwrpasol a gynlluniwyd y maent am gymryd rhan ynddynt. Mae enghraifft o hyn yn cynnwys y plant yn penderfynu newid y lloches ddarllen yn lloches go iawn. Yn ystod amser byrbryd, caiff y plant eu hannog i ddewis pa ffrwyth yr hoffent am ei fwyta a diod.

Ni chaiff y plant gynnig y cyfle i weini eu hunain ar hyn o bryd. Ymgynghorir â'r plant i gasglu syniadau am weithgareddau a'u hawgrymiadau ar gyfer dogfennau cynllunio priodol. Yn ystod arsylwadau'r staff, caiff gwybodaeth ei defnyddio i gynllunio camau nesaf yn natblygiad y plant.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn bwrpasol er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cael hyfforddiant ar ddiogelu yn rheolaidd ac yn deall gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn effeithiol. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau ac maent yn sicrhau y caiff y cofnodion hynny eu llofnodi gan y staff a'r rhieni. Oherwydd nifer bach o ddamweiniau a digwyddiadau sy'n digwydd, ni chânt eu dadansoddi ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, nid yw'r staff yn cadw cofnod o anafiadau sy'n bodoli eisoes pan fydd y plant yn cyrraedd y lleoliad, gan nad ydynt wedi cael rhai i'w cofnodi eto. Mae pob aelod cyfredol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, sy'n eu galluogi i ddelio â damweiniau yn briodol. Mae gan y lleoliad systemau ar waith i storio meddyginiaethau'n ddiogel ac i gofnodi rhoi meddyginiaethau, gan gynnwys y dos diwethaf a roddwyd. Mae'r staff yn annog y plant i fwyta'n iach, a chaiff ffrwythau a llaeth eu gweini yn ystod amser byrbryd.  Caiff anghenion deietegol ac unrhyw alergeddau sydd gan y plant eu hymdrin â nhw'n briodol ac yn ddiogel. Caiff yr holl wybodaeth ei diweddaru er mwyn sicrhau bod y staff yn hollol ymwybodol o anghenion unigol y plant. Mae'r staff yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) fel mater o drefn wrth baratoi a gweini bwyd i'r plant. Caiff y plant eu hannog i olchi eu dwylo'n annibynnol cyn bwyta eu byrbryd ac i'w golchi ar ôl gorffen.

Mae gan y staff gydberthnasau cadarnhaol a chynnes â'r plant. Mae'r lleoliad yn rhoi system gweithwyr allweddol ar waith ac mae'r staff yn ofalgar ac yn amyneddgar wrth siarad â'r plant. Roedd enghreifftiau o'r rhyngweithio yn cynnwys trafod gwaith y plant a lle roeddent am ludo'r anifeiliaid ar eu lluniau. Mae'r awyrgylch yn hamddenol, ac mae'r plant yn gyfforddus. Mae'r staff yn cefnogi ymddygiad cymdeithasol y plant yn effeithiol ac yn gadarnhaol dan do ac yn yr awyr agored. Caiff y plant eu hatgoffa am ymddygiad addas mewn ffordd bwyllog ac maent yn ymateb yn gadarnhaol. Mae'r staff yn cael digwyddiadau fel mannau dysgu i'r plant fel cyfle i'w hatgoffa nhw o beth yw ymddygiad addas. Mae enghreifftiau yn cynnwys gofyn ‘are we supposed to be stood on a table?’ a chael eu hatgoffa i ddweud ‘please’ a ‘thank you.’  Mae rhyngweithio y staff yn ystod gweithgareddau yn dda ac yn effeithiol. Maent yn defnyddio sylwadau cadarnhaol yn ystod y sesiwn rhifedd ac wrth ymarfer eu sgiliau ysgrifennu.

Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, gan gynllunio amrywiaeth o weithgareddau da. Mae enghreifftiau'n cynnwys celf a chrefft, hambwrdd ag amrywiaeth o anifeiliaid a chwarae rôl. Caiff mewnbwn y plant i'r gwaith cynllunio ei nodi mewn dogfen gynllunio fuddiol. Drwy arsylwadau rheolaidd y plant yn ystod gweithgareddau, caiff datblygiad a chyflawniadau'r plant eu cofnodi'n effeithiol. Yna caiff y wybodaeth ei defnyddio fel sail ar gyfer cynlluniau pellach a nodi camau datblygu nesaf y plant.

Er enghraifft, roedd rhai o'r plant yn ymarfer ffurfiadau llythrennau tra roedd eraill yn ymarfer ysgrifennu eu henwau. Ceir cysylltiadau effeithiol â'r rhieni ac asiantaethau allanol gan gynnwys yr ysgol gynradd sydd ar yr un safle. Mae mwyafrif o'r staff yn hybu'r Gymraeg drwy'r lleoliad.

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae amgylchedd y lleoliad yn ddiogel a chaiff ei asesu drwy brif giatiau'r ysgol. Gellir cyrraedd yr ardal awyr agored drwy ochr y lleoliad ac mae wedi'i amgylchynu gyda ffens a sgriniau priodol. Gall y staff adael ymwelwyr i mewn drwy'r brif giat sy'n ddiogel. Mae'r asesiadau risg perthnasol ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal gwiriadau dyddiol ar yr ardal dan do a'r ardal awyr agored er nad ydynt yn cael eu llofnodi ar hyn o bryd. Gwnaethant ddangos y caiff yr holl wiriadau cynnal a chadw a diogelwch arferol eraill eu cwblhau o fewn y terfynau amser priodol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys profion larymau tân, diffoddwyr tân a phrofion trydan. Mae'r cyfleusterau toiled yn briodol, ac yn cynnwys sinciau sydd wedi'u gosod yn briodol, ac mae'r ardal yn bodloni preifatrwydd a gofynion urddas y plant. Caiff y lleoliad ei gadw'n lân yn rheolaidd, a chaiff ei lanhau yn ddyddiol. Gwelsom y staff yn glanhau yn rheolaidd yn ystod y dydd yn enwedig cyn ac ar ôl amser byrbryd. Yn ystod yr arolygiad, cafodd y deunyddiau glanhau eu storio mewn ardal hygyrch. Mae'r lleoliad wedi rhoi tystiolaeth bod hyn wedi cael ei ddatrys ers yr arolygiad.

Mae'r amgylchedd yn gynnes ac yn darparu amgylchedd pwrpasol i'r plant, sy'n cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus i hybu dysgu a datblygiad. Mae natur cynllun agored y lleoliad yn hybu chwilfrydedd y plant a'u dysgu cyffredinol. Caiff annibyniaeth y plant ei ddatblygu, sy'n rhoi'r rhyddid iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau addas o ran oedran. Caiff yr adnoddau eu storio ar lefelau priodol fel y gall y plant gael gafael arnynt a gwneud eu dewisiadau eu hunain. Mae'r plant yn gallu defnyddio adnoddau adeiladu sy'n cynnwys briciau adeiladu, offer adeiladu amrywiol a chymysgwr sment, sy'n datblygu eu dychymyg a'u profiadau dysgu. Mae digon o adnoddau yn yr ardal awyr agored a gellir mynd yno drwy'r ramp allanol. Oherwydd lleoliad y drws a'r ramp, ni all y plant wneud dewisiadau annibynnol rhwng bod dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r adnoddau awyr agored yn cynnwys beiciau sy'n briodol o ran oedran, sleid, lloches a byrddau picnic. Mae gan y plant ryddid i ddefnyddio'r adnoddau awyr agored yn annibynnol. Caiff yr holl adnoddau eu storio'n briodol ac yn ddiogel.

Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau gwerth chweil sy'n briodol i oedran y plant ac sy'n cynnal eu diddordeb. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys pwll dŵr, llyfrau, teledu, cyfarpar chwarae rôl a chlustogau. Mae'r holl adnoddau a'r cyfarpar yn briodol o ran oedran a'u bod o ansawdd da. Mae'r holl deganau a chyfarpar chwarae yn lân ac mewn cyflwr da a chawsant eu glanhau yn rheolaidd yn ystod y dydd. Roedd amrywiaeth o adnoddau i hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol, dathliadau ac amrywiaeth yn y lleoliad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn ddigonol ar hyn o bryd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fedrus ac yn brofiadol ac mae ganddynt weledigaeth gadarn ar gyfer y dyfodol wrth redeg y lleoliad. Mae ganddynt ddisgwyliadau cadarnhaol o'r staff ac maent yn eu cefnogi'n gyson i wneud eu gorau. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi gwybodaeth berthnasol i'r rhieni a darlun effeithiol o'r ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y staff yn eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Maent yn y broses o greu polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol. Mae ganddynt systemau cadw cofnodion priodol ar waith gan gynnwys contractau'r plant, presenoldeb y plant, a ffeiliau'r staff, ac nid oedd ganddynt gymwysterau addas. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod prosesau recriwtio cadarn ar waith mewn perthynas â gwiriadau addasrwydd staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau yn unol â'r rheoliadau, gan ddarparu gwybodaeth berthnasol ar yr adegau cywir.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau defnyddiol ar waith i werthuso'r gwasanaeth. Maent yn ceisio adborth gan rieni, y staff a'r plant yn rheolaidd gan ddefnyddio holiaduron sy'n gyson dda. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol er mwyn adolygu perfformiad, nodi blaenoriaethau i'w gwella ac i wella cyfleoedd i'r staff a'r plant ymhellach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwerthfawrogi eu staff. Mae ethos gwerthfawr a chadarnhaol o waith tîm o fewn y tîm o staff, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r cyfleoedd a'r canlyniadau gorau i'r plant. Mae'r staff yn brofiadol ac yn gwneud yn siŵr bod y plant yn ddiogel. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd rhai darnau pwysig o wybodaeth wedi'u cynnwys yn ffeiliau'r staff i sicrhau eu bod yn gwbl addas i weithio gyda phlant. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae'r materion hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad gymryd camau gweithredu priodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarnu rheolaidd ac yn cefnogi'r staff â'u gofynion proffesiynol a'u gofynion hyfforddiant. Roedd y staff yn teimlo fel eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli ac yn teimlo y gallant siarad a thrafod syniadau â nhw'n hyderus

Mae partneriaethau â rhieni ac asiantaethau allanol yn fuddiol ac yn cefnogi gwaith y lleoliad. Mae'r staff yn rhannu diweddariadau dyddiol â'r rhieni yn rheolaidd drwy Ap webform. Mae'r wybodaeth yn cynnwys lluniau o'r gweithgareddau. Dywedodd y rheini wrthym fod eu plant yn cael gofal da yn gyson ac yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y lleoliad. Roedd enghreifftiau o'r sylwadau yn cynnwys ‘children love attending the Cylch,’ ‘we have a great bond with the staff’ ac ‘would highly recommend to anyone.’ Mae gan y lleoliad gydberthynas gref â'r ysgol leol sydd ar yr un safle.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Mae angen i'r darparwr sicrhau bod ganddo wybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael mewn perthynas â'r staff. Mae angen i'r darparwr sicrhau bod nifer digonol o staff cymwys addas ar gael bob amser. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 8 – Maeth a lles | Cynyddu'r cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth, yn enwedig yn ystod amser byrbryd. |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant perthnasol megis hylendid bwyd. |
| Safon 4 - Diwallu anghenion unigol | Sicrhau bod gan y lleoliad Bolisi Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n cael ei rannu â'r rhieni. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/05/2024